



Sbectol Haul, Cwmni'r Frân Wen

Arolwg Omnibws y Plant 2017

Adroddiad am y prif ganfyddiadau



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Y Tîm Ymchwil
Mai 2018



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i roi gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio rhoi gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru bolisi cyfle cyfartal.

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
1.1 Cefndir	3
1.2 Methodoleg	3
1.3 Nodiadau ar gyflwyno data	4
2. Crynodeb Gweithredol	5
2.1 Mynychu'r celfyddydau	5
2.2 Cyfranogi o'r celfyddydau	6
3. Mynychu'r celfyddydau	8
3.1. Amllder mynychu digwyddiadau celfyddydol – methodoleg	8
3.2. Amllder mynychu digwyddiadau celfyddydol	9
3.3. Mynychu yn ôl grŵp demograffig	11
3.4 Mynychu yn ôl safle cymdeithasol	11
3.5 Mynychu yn ôl oedran	12
3.6 Mynychu yn ôl rhywedd	14
3.7 Mynychu yn ôl rhanbarth	15
3.8 Mynychu yn ôl y Gymraeg	16
3.9 Dadansoddiad pellach o'r Gymraeg	17
3.10 Mynychu yn ôl celfyddyd	18
3.11 Mynychu'r celfyddydau - sut a phryd?	19
4.0 Cyfranogi o'r celfyddydau	20
Amllder cyfranogi o weithgareddau celfyddydol – methodoleg	20
4.1 Amllder cyfranogi o weithgareddau celfyddydol	21
4.2 Cyfranogi yn ôl grŵp demograffig	22
4.3 Cyfranogi yn ôl oedran	23
4.4 Cyfranogi yn ôl rhywedd	25
4.5 Cyfranogi yn ôl rhanbarth	26
4.6 Cyfranogi yn ôl y Gymraeg	27
4.7 Dadansoddiad pellach o'r Gymraeg	28
4.8 Cyfranogi yn ôl celfyddyd	29
4.9 Cyfranogi o weithgareddau celfyddydol - sut a phryd	30
Atodiad 1: Mynychu yn ôl celfyddyd	31
Atodiad 2: Cyfranogi o'r celfyddydau yn ôl gweithgaredd artistig	49
Atodiad 3: Diffiniadau o safleoedd cymdeithasol	63
Atodiad 4: Holiadur Arolwg 2015	64

1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Er 2007 mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnal arolwg blynyddol o fynychu a chyfranogi ymhlith plant a phobl ifainc. Cesglir gwybodaeth am fynychiadau i ddigwyddiadau celfyddydol a chyfranogi o weithgareddau artistig drwy gyfres o gwestiynau a ofynnir yn arolwg blynyddol Omnibws y Plant gan Ymchwil Beaufort. Atodir i'r adroddiad hwn gopi o'r holiadur a ddefnyddir i gasglu'r wybodaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau arolwg 2017, gan archwilio lefelau cyffredinol mynychu'r celfyddydau a chyfranogi ohonynt gan blant a phobl ifainc. Archwilir amrywiadau demograffig a rhanbarthol, darperir cymhariaeth o'r celfyddydau a'r tueddiadau yn y celfyddydau unigol yn Atodiadau 1 a 2 i'r adroddiad hwn.

1.2 Methodoleg

Cynhelir yr arolwg dair gwaith y flwyddyn; yn y gwanwyn, yr haf a'r hydref. Mae pob arolwg yn cynnwys cyfweiliadau gydag oddeutu 500 o blant a phobl ifainc rhwng 7 a 18 oed. Nodda Cyngor Celfyddydau Cymru fodiwlau o gwestiynu yn holiaduron Ebrill a Hydref. Mae pob blwyddyn o ddata a drafodir yn yr adroddiad yn gyfuniad o setiau data Ebrill a Hydref, sy'n cynrychioli sampl flynyddol gyfunol o tua 1,000 o gyfweleion. Er mwyn cael sampl gynrychioliadol o bobl ifainc 7-18 oed ledled Cymru, pennir cwtâu ar y cyfweiliadau a gynhelir yn ôl rhanbarth, oedran, rhywedd a gallu o ran y Gymraeg, sy'n adlewyrchu cyfrannau Cyfrifiad 2011. Caiff y data sy'n deillio o hyn hefyd ei bwysoli i gywiro unrhyw fân anghysonderau yn y sampl, gan sicrhau ei fod yn cynrychioli poblogaeth Cymru rhwng 7 a 18 oed.

Cynhelir cyfweiliadau wyneb yn wyneb yng nghartrefi'r ymatebwyr gan ddefnyddio technoleg CAPI (cyfweld personol â chymorth cyfrifiadurol) gan dîm Beaufort o gyfwelwyr profiadol. Cynhelir yr holl waith maes yn unol â Chod Ymddygiad MRS a chan ddilyn y Canllawiau Cynnal Ymchwil gyda Phlant a Phobl Ifainc.

Cynhaliwyd gwaith maes yr arolwg yn Ebrill a Hydref-Tachwedd 2017; cynhaliwyd a dadansoddwyd 530 cyfweiliad yn y don gyntaf a 502 yn yr ail, gan roi sampl heb ei phwysoli o 1,032 o bobl ifainc yn yr oed 7-18.

1.3 Nodiadau ar gyflwyno data

Cyflwynir y data mewn cyfres o siartiau bar a llinell, sy'n dangos canran y plant a'r bobl ifainc sydd wedi mynychu neu gymryd rhan ym mhob un o'r gweithgareddau y gofynnir yn eu cylch yn yr arolwg. Rhennir y canlyniadau hefyd yn ôl rhanbarth a grŵp demograffig allweddol. Lle y sonnir am amllder mynychu a chyfranogi mae'n cyfeirio at gyfradd o unwaith y flwyddyn neu'n amlach.

Mae hefyd yn werth nodi mai diffiniadau'r Cyngor o ranbarthau Cymru yw'r rhanbarthau y cyfeirir atynt drwy gydol yr adroddiad. Dyma hwy:

Enw'r rhanbarth	Diffiniad
Y Gogledd	Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Ynys Môn, Gwynedd
Y De-orllewin	Powys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot
Canolbarth y De	Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful
Y De-ddwyrain	Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd, Caerffili, Blaenau Gwent

2. Crynodeb Gweithredol

2.1 Mynychu'r celfyddydau

- Cynyddodd mynychuadau celfyddydol ymysg plant a phobl ifainc gan 3.6 pwynt canran gyda 86.5% sy'n mynychu unrhyw un o'r 9 celfyddyd^[1] (gan gynnwys carnifalau a chelfyddydau'r stryd) yn 2017, i fyny 3.6 pwynt canran o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol
- Gan ganolbwyntio ar yr 8 celfyddyd gyson ers i'r arolwg ddechrau yn 2007 (gan eithrio carnifalau a chelfyddydau'r stryd), cynyddodd cyfran y bobl ifainc 7-18 oed sy'n mynychu o leiaf unwaith y flwyddyn neu'n amlach gan 2.5 pwynt canran i 79.5%
- Mae plant a phobl ifainc o'r graddau neu'r safleoedd cymdeithasol uwch yn parhau i ddangos lefelau uwch o fynychu'r celfyddydau yn 2017 (89.5% o'r grŵp ABC1 o'i gymharu ag 84.3% o'r grŵp C2DE). Mae'r bwlch rhwng y ddau grŵp wedi culhau o'i gymharu â 2016 ac ar hyn o bryd 5.2 pwynt canran ydyw, i lawr o 9.4% y flwyddyn flaenorol
- Gan barhau â'r tueddiad sydd wedi'i sefydlu, mae plant iau yn debycach o fynychu'r celfyddydau na rhai hŷn. Mae dros 9 o bob 10 (94.6%) yn yr oed 7-10 yn mynychu o'u cymharu ag 84.9% yn yr oed 11-15 ac 80.2% yn yr oed 16-18. Ond, er mai plant 7-10 oed yw'r mynychwyr amlaf, gostwng y mae'r lefelau gan ryw 1 pwynt canran flwyddyn ar ôl blwyddyn er 2015. Mewn cyferbyniad â hyn, mae'r grwpiau hŷn wedi gwrthdroi'r duedd fynychu tuag i lawr a gafwyd yn 2016. Roedd lefelau mynychu pobl ifainc yn yr oed 11-15 wedi cynyddu gan 6.2 pwynt canran a 16-18 oed i fyny gan 5.5 pwynt canran o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol
- Erys lefelau mynychu o hyd yn uwch ymhlith merched, 89.7%, na bechgyn, 83.4%, yn 2017, gyda'r bwlch rhwng y ddau yn cynyddu ychydig o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 5.5 pwynt canran yn 2016 i 6.3 pwynt canran yn 2017
- Cafwyd tuedd ar i fyny gyda mynychuadau pob rhanbarth ac eithrio y De-orllewin yn 2017, gan wrthdroi'r gostyngiad bach a brofodd y rhanbarthau hyn yn 2016. Bellach Canolbarth y De sydd â'r lefel uchaf o fynychuadau (90.1%) – o'r blaen y De-orllewin oedd â'r mwyaf yn 2016. Y De-ddwyrain sydd gyda'r lefelau isaf o fynychu (79.5%), fodd bynnag maent wedi cynyddu o'i gymharu â 2016 gan 3.7 pwynt canran
- Yn 2017 roedd gan y rhai sydd â rhywfaint o Gymraeg lefelau uwch o fynychu yn y celfyddydau (89.9%) na phlant a phobl ifainc di-Gymraeg (84.9%). Cafodd y rhai di-Gymraeg gynnydd a oedd ychydig yn fwy dros y flwyddyn (4.5 pwynt

canran o gymharu â 3.1 pwynt canran i siaradwyr Cymraeg). Culhaodd y bwlch rhwng y ddau ychydig, o 6.4 y cant yn 2016 i 5 pwynt canran yn 2017

- Carnifalau a chelfyddydau'r stryd oedd y celfyddydau mwyaf poblogaidd o ran mynychu yn 2017 gyda hanner (50.9%) yr holl blant a phobl ifainc yn mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Opera a cherddoriaeth glasurol oedd y celfyddydau lleiaf poblogaidd o ran mynychu gydag 8.5% a 2.7% o'r plant a'r bobl ifainc yn mynychu'r digwyddiadau hyn
- Digwyddodd y rhan fwyaf o fynychiadau plant a phobl ifainc yn eu hamser eu hunain, hynny yw, yn annibynnol ar yr ysgol neu'r coleg, gyda thri chwarter y plant a phobl ifainc yn mynychu felly, 76.4%

2.2 Cyfranogi o'r celfyddydau

- Roedd bron 9 o bob 10 (87.4%) o blant a phobl ifainc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn 2017. Dyma'r lefel uchaf ond un o gyfranogi er 2010
- Roedd mwy o blant a phobl ifainc o gartrefi ABC1 yn cymryd rhan yn y celfyddydau yn 2017 (88.5%) o'i gymharu â phlant a phobl ifainc o gartrefi C2DE (86.5%). Saif y bwlch rhwng y ddau grŵp ar hyn o bryd yn 2 bwynt canran sy'n golygu bod y bwlch wedi culhau gan 6.5 pwynt canran o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol
- Plant iau sy'n parhau i fod yn amlach eu cyfranogi o'r celfyddydau, gyda thros 90% o blant 7-15 oed yn cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Mae'r lefel uchaf o gyfranogi o'r celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach ymhlith plant oed 7-10 (98.4%). Y rhai yn yr oed 16-18 yw'r lleiaf tebygol o gymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach, gyda chyfraddau cyfranogi is na'r cyfartaledd o 68.7%
- Mae merched yn parhau i fod â lefelau uwch o gyfranogi o'r celfyddydau yn 2017, 89.2% o'i gymharu ag 85.6% y bechgyn, ond culhaodd y bwlch rhwng y ddau dros y flwyddyn o wahaniaeth o 8.1 pwynt canran i un o 3.6 pwynt canran. Mae gan fechgyn o hyd lefelau is o gymryd rhan yn y celfyddydau na merched ond mae o hyd dros 8 ymhob 10 o fechgyn sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach, ond mae lefelau cyfranogi'r bechgyn wedi cynyddu ychydig mewn gwirionedd o'i gymharu â 2016, o 82.3% i 85.6% yn y flwyddyn bresennol
- Yn 2017 roedd gan bob rhanbarth lefelau cyfranogi o 80% neu'n uwch. Y Gogledd oedd gan y lefelau uchaf o gyfranogi (91.3%) ac wedyn yn ddigon agos Canolbarth y De (89.6%). Y rhanbarth gyda'r lefelau isaf o gyfranogi oedd

y De-ddwyrain (80.2%), er bod y rhain wedi cynyddu ers y flwyddyn flaenorol gan 4 pwynt canran

- Arhosodd cyfranogi ymhlith plant a phobl ifainc sy'n siarad unrhyw Gymraeg yn weddol sefydlog (89.9% yn 2017 a 90.6% yn 2016) ac erys ychydig yn uwch na'r plant a phobl ifainc di-Gymraeg, 85.9% yn 2017. Cynyddodd cyfranogi celfyddydol ymysg plant a phobl ifainc di-Gymraeg gan 2.4 pwynt canran (o 83.5% yn 2016 i 85.9% yn 2017)
- Y gelfyddyd fwyaf poblogaidd o ran cymryd rhan oedd y celfyddydau gweledol a chrefftau yn 2017 gyda 66.2% yn ei wneud unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Wedyn yn ddigon agos cafwyd ysgrifennu creadigol (62.2%). Cymer hanner, 50.9%, o'r holl blant a phobl ifainc ran mewn gweithgareddau cerddorol unwaith y flwyddyn neu'n amlach ac roedd hyn yn wir am y tair blynedd diwethaf. Erys dawns y gweithgarwch cyfranogol lleiaf poblogaidd, gyda llai na chwarter (22%) o blant a phobl ifainc yn cymryd rhan
- Digwyddodd y rhan fwyaf o gyfranogi celfyddydol o ganlyniad i weithgareddau a drefnir gan ysgolion neu golegau (69.6%)

3. Mynychu'r celfyddydau

3.1 Amllder mynychu digwyddiadau celfyddydol – methodoleg

Canolbwyntia'r adran hon o'r adroddiad ar fynychu'r celfyddydau. Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa mor aml yr oeddynt yn mynychu pob un o'r naw celfyddyd ganlynol:

- Drama
- Sioeau cerdd
- Opera
- Cerddoriaeth glasurol
- Cerddoriaeth fyw arall
- Perfformiadau dawns
- Oriolau neu arddangosfeydd celf neu grefft
- Darlleniadau, adrodd straeon a digwyddiadau llenyddol eraill
- Carnifalau a chelfyddydau'r stryd *


* celfyddyd a ychwanegwyd yn 2010

Crynoha'r adran hon o'r adroddiad fynychiadau cyffredinol i ddigwyddiadau celfyddydol, a fesurir gan fynychiadau i unrhyw gelfyddyd. Archwilir amrywiadau demograffig a rhanbarthol mewn mynychiadau cyffredinol i ddeall pa blant a phobl ifainc sy'n debycach o fynychu'r celfyddydau yng Nghymru. Ceir manylion o'r tueddiadau mewn celfyddydau penodol yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Wrth ystyried y ffigurau mynychu cyffredinol, cofiwch yr ychwanegwyd 'Carnifalau a chelfyddydau'r stryd' at y rhestr o'r celfyddydau yn 2010. Felly archwilir mynychu celfyddydol cyffredinol yn seiliedig ar fynychu unrhyw un o'r 8 celfyddyd gyson dros y deng mlynedd diwethaf ond hefyd yn seiliedig ar bob 9 celfyddyd dros y saith mlynedd diwethaf. Wrth archwilio tueddiadau demograffig (adran 3.3) gwneir cymariaethau yn seiliedig ar yr holl naw celfyddyd lawn dros y tair blynedd diwethaf.


3.2 Amllder mynychu digwyddiadau celfyddydol

Dengys data o arolwg 2017 fod 79.5% o blant a phobl ifainc yn mynychu o leiaf un digwyddiad celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach.^[2] Cynrychiola'r lefel hon o fynychu gynnydd o 2.5 pwynt canran ar ffigur y flwyddyn ddiwethaf a daw â lefelau mynychu yn ôl i fyny i lefelau rhai 2014/15 sef y rhai uchaf dros y saith mlynedd. Mae hyn hefyd yn gwrthdroi'r gostyngiad yn lefelau mynychu'r flwyddyn flaenorol.



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 y don) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2010-17

O gynnwys carnifalau a chelfyddydau'r stryd yn y dadansoddiad, roedd lefelau mynychu plant a phobl ifainc yn 2017 yn 86.5% (mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach) sy'n gynydd o 3.6 pwynt canran o'i gymharu â 2016. Megis gyda phatrwm mynychu ar gyfer y 8 celfyddyd gyson, ymddengys fod y gostyngiad mynychu a gofnodwyd yn 2016 wedi'i wrthdroi gan ddod â lefelau i'r uchaf ond un yn y saith mlynedd diwethaf.




Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 y don) Ffynhonnell: Arolwg 2010-17 Omnibws y Plant

3.3 Mynychu yn ôl grŵp demograffig

Ystyria'r adran hon o'r adroddiad y gwahaniaeth mynychu cyffredinol yn ôl grŵp demograffig, rhanbarth a gallu yn y Gymraeg. Cyflwynir data 2015, 2016 a 2017 at ddibenion cymharu gan siartio cyfran y plant a phobl ifainc ym mhob grŵp demograffig sy'n mynychu un o'r naw celfyddyd unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Mae pob siart hefyd yn dangos cyfanswm y ffigurau mynychu cyffredinol i unrhyw un o'r naw categori dros y tair blynedd diwethaf er mwyn eu cymharu.

3.4 Mynychu yn ôl safle cymdeithasol




Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 y don) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2015-17

Unwaith eto, dengys data'r flwyddyn hon lefelau uwch o fynychu ymhlith plant a phobl ifainc o'r safleoedd economaidd-gymdeithasol uwch. Mae 89.5% sydd o gartrefi ABC1 yn mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach o'u cymharu ag 84.3% sydd o gartrefi C2DE. Cafodd y ddau grŵp gynnydd yn eu lefelau mynychu er 2016; 1.6 pwynt canran ar gyfer i'r rhai sy'n byw mewn cartrefi ABC1 a 5.8 pwynt canran o gartrefi C2DE. Yn ogystal, dengys data 2017 fod y bwlch rhwng y ddau grŵp wedi culhau – erbyn hyn mae'n 5.2% o'i gymharu â 9.4% yn y flwyddyn flaenorol.

3.5 Mynychu yn ôl oedran

Rydym yn parhau i weld y lefelau uchaf o fynychu ymhlith y grŵp oed 7-10 gyda lefelau mynychu yn 94.6% yn 2017. Mae'r lefelau mynychu bron deg pwynt canran yn uwch (9.7 pwynt canran) na lefelau'r rhai yn yr oed 11-15 (84.9%) ac, unwaith eto, mae'r lefelau mynychu isaf ymysg plant a phobl ifainc 16-18 oed sef 80.2%.

Er bod y patrwm cyffredinol o fynychu yn parhau i fod yr un fath â'r blynyddoedd blaenorol (gyda'r grwpiau iau'n mynychu'n amlach na'r rhai hŷn), cafwyd rhai mân newidiadau yn y patrwm yn setiau data 2016 a 2017. Dengys data 2017 duedd ar i fyny ymhlith y ddau grŵp hŷn, ond leihad mynychu bach iawn yn y grŵp ieuengaf o 1.1 pwynt canran rhwng 2015 a 2016 a 0.6 pwynt canran rhwng 2016 a 2017. Fodd bynnag, y grŵp oedran hwn o hyd yw'r mynychwyr amlaf o'r tri grŵp oedran.




Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 y don) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2015-17

Mae hefyd yn ddiddorol cymharu mynychu yn ôl grwpiau oedran â mynychu yn ôl grwpiau blwyddyn yn yr ysgol, ac mae'n amlwg bod peth cydberthynas rhwng y ddau. Yn 2017 roedd gan blant ysgol ym mlynnyddoedd 2-6 bron yr un lefelau'n union o fynychiadau plant yn yr oed 7-10; 94.6% a 94.3%. Am fod plant 7-10 oed yn perthyn i'r blynyddoedd ysgol 2-6, mae'n awgrymu y gall amgylchedd yr ysgol gael rhywfaint o ddylanwad ar lefelau mynychu plant a phobl ifainc o'r oedran hwn. Yn yr un modd dim ond 1.2 pwynt canran o wahaniaeth sydd rhwng 11-15 oed a rhai ym mlynnyddoedd ysgol 7-11 o ran mynychu eleni sy'n awgrymu cydberthynas agos yma, hefyd. Ceir y gwahaniaeth mwyaf rhwng 16-18 oed a'r rhai ym mlynnyddoedd ysgol 12-13. Yma ceir gwahaniaeth o 11.1 pwynt canran, gyda 80.2% o 16-18 oed yn mynychu


unwaith y flwyddyn neu'n amlach, o'u cymharu â 91.3% o'r rhai ym mlynnyddoedd ysgol 12-13. Mae lefel fynychu uwch o bobl 16-18 oed sydd o hyd yn yr ysgol ond hefyd mae hyn wedi cynyddu ychydig dros ddeg pwynt canran mewn cwta flwyddyn. Bu cynnydd hefyd mewn mynychu pobl 16-18 oed o 5.5 pwynt canran rhwng 2016 a 2017. Ymddengys fod y data hwn yn awgrymu bod pobl 16-18 oed yn debycach o fynychu os ydynt yn yr ysgol o hyd.

O'r plant a'r bobl ifainc nad oedd yn yr ysgol, mynychodd dros dri chwarter, 77.3%, y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn 2017, i fyny o 74.7% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 y don) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2016/17

3.6 Mynychu yn ôl rhywedd




Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 y don) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2015-17

Gan barhau â'r duedd hir sefydledig, yn 2017 mynychodd cyfran uwch o ferched y celfyddydau (89.7%) na bechgyn (83.4%). Dengys data 2017 fod bwllch rhwng y rhywiau o 6.3 pwynt canran, cynyddodd y bwllch hwn o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol pan oedd gwahaniaeth o 5.5/5.6 pwynt canran.

Yn ogystal â hyn, mae lefelau mynychu wedi cynyddu ers y flwyddyn flaenorol ar gyfer y ddau ryw; 3 phwynt canran i fechgyn a 3.8 pwynt canran ar gyfer merched.

3.7 Mynychu yn ôl rhanbarth




Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 y don) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2015-17

Ymddengys fod data 2017 yn gwrthdroi'r duedd fynychu ar i lawr er 2016 ar gyfer pob rhanbarth ar wahân i'r De-orllewin. Canolbarth y De oedd gyda'r lefelau uchaf o fynychiadau yn 2017 (90.1%) sy'n wahanol i'r flwyddyn flaenorol pan oedd y De-orllewin yn meddu ar y lefelau uchaf (86.6%). Gan y De-ddwyrain oedd y lefelau mynychu isaf yn 2017 (79.5%) er bod hyn yn gynydd o'r flwyddyn flaenorol, gan 3.7 pwynt canran. Fodd bynnag, mae hyn yn llawer is o hyd na'r lefelau mynychu uchel iawn (90.9%) a gafodd y rhanbarth hwn yn 2015.

Cafodd y Gogledd gynydd o ddau bwynt canran o 81.9% yn 2016 i 83.9% yn 2017.

3.8 Mynychu yn ôl y Gymraeg




Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 y don) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2015-17

Megis yn y blynyddoedd blaenorol, yn 2017 mae'r rhai sydd â rhywfaint o Gymraeg yn mynychu'r celfyddydau'n amlach (89.9%) na'r rhai di-Gymraeg (84.9%). Roedd cynnydd i'r ddau grŵp ond un mwy i'r di-Gymraeg (4.5 pwynt canran) o'i gymharu â 3.1 pwynt canran i'r siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, mae siaradwyr Cymraeg yn parhau i fynychu'n amlach na'r cyfartaledd.

3.9 Dadansoddiad pellach o'r Gymraeg


Gan ganolbwyntio ar y cysylltiad rhwng mynychu a gallu ieithyddol yn fanylach, mae gan y rhai sydd yn siarad rhywfaint o Gymraeg, ond heb fod yn rhugl, lefelau uwch na'r cyfartaledd o fynychu (90%) megis y rhai rhugl (89.7%). Fodd bynnag, mae gan y di-Gymraeg lefel fynychu is na'r cyfartaledd (84.9%).



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 y don) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2015-17

3.10 Mynychu yn ôl celfyddyd

Mae'r graff canlynol yn dangos cyfran y plant a'r bobl ifainc sy'n mynychu pob celfyddyd unigol unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Dengys hefyd y canfyddiadau diweddaraf o arolwg 2017 a ffigurau mynychu o arolygon 2015 a 2016 at ddibenion cymharu.



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 y don) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2015-17

Yn ôl Omnibws y Plant 2017, carnifalau a chelfyddydau'r stryd unwaith eto oedd y celfyddydau mwyaf poblogaidd (50.9%) i blant a phobl ifainc eu mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Mae hyn yn gynydd o 6.3 y cant sy'n gwrthdroi gostyngiad y flwyddyn flaenorol. Drama o hyd yw'r gelfyddyd fwyaf poblogaidd ond un, gyda 48.5% o blant a phobl ifainc yn ei mynychu yn 2017. Mae hyn wedi aros yn gyson ers y flwyddyn flaenorol pan fynychodd 47.4%.

Mae'r celfyddydau gyda'r lefelau isaf o fynychu o hyd yw opera gyda chwta 2.7% (ond mae hyn yn gynydd o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol pan oedd dim ond 1%) a cherddoriaeth glasurol (8.5%). Er mai hon yw'r gelfyddyd gyda llai o fynychiadau, eto roedd ganddi gynydd bychan o 2.6 pwynt canran o'i gymharu â 2016, pan fynychodd 5.9% o blant a phobl ifainc hon.

O ran celfyddydau yn y canol, roedd cynnydd mynychu o'i gymharu â 2016 i arddangosfeydd celf a chrefft. Roedd wedi cynyddu gan 5.4 pwynt canran i 39.2% yn 2017. Golyga hyn fod lefelau mynychu ar eu uchaf ar gyfer cyfnod y tair blynedd.


Cafodd cerddoriaeth fyw arall hefyd gynydd graddol yn y lefelau mynychu dros y tair blynedd, o 35.2% yn 2015 i 40% yn 2017.

Cynyddodd lefelau mynychu i sioeau cerdd ers y flwyddyn flaenorol i 28.8%, i fyny gan 4.2 pwynt canran yn 2017, er nad yw eto wedi cyrraedd lefelau 2015 pan oedd yn 32.7%.

Yn olaf mae mynychu dawnys yn 2017 ar yr un lefelau mynychu â 2015 (19.8%) er bod gostyngiad bychan ers y flwyddyn flaenorol pan oedd yn 21.7%.

3.11 Mynychu'r celfyddydau - sut a phryd?

Roedd y mwyafrif o'r mynychuadau i ddigwyddiadau celfyddydol gan blant a phobl ifainc yn 2017 yn ystod eu hamser eu hunain (76.4%) ac nid i ddigwyddiadau a oedd wedi'u trefnu gan yr ysgol neu'r coleg. Cynhaliwyd 39.7% pellach yn yr ysgol/coleg yn ystod amser yr ysgol a threfnwyd 8.6% gan yr ysgol ond y tu allan i amser yr ysgol. Nid yw cyfanswm y ffigurau hyn yn 100% oherwydd y sail yw'r holl blant a phobl ifainc, ac felly mae'n bosibl iddynt fynychu rhagor nag un gelfyddyd mewn rhagor nag un ffordd. Ni fynychodd 13.6% o blant a phobl ifainc ddigwyddiad celfyddydol yn ystod y flwyddyn.



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed: 1,032

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2017

4.0 Cyfranogi o'r celfyddydau

Amllder cyfranogi o weithgareddau celfyddydol – methodoleg

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu cyfranogiad o'r celfyddydau drwy nodi pa mor aml yr oeddynt wedi'i wneud i bob un o'r saith gweithgaredd hyn:


- Gweithgareddau cerddorol
- Gweithgaredd drama neu theatrig
- Gweithgaredd dawns
- Gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth
- Y celfyddydau gweledol a chrefftau
- Y celfyddydau digidol
- Ysgrifennu creadigol

Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn crynhoi'r cyfranogi cyffredinol mewn unrhyw un o'r gweithgareddau artistig hyn yn ôl grŵp demograffig, rhanbarth a'r Gymraeg (ymhlith ffactorau eraill). Ceir manylion o'r tueddiadau cyfranogol mewn celfyddydau penodol yn Atodiad 2 i'r adroddiad hwn.

Dylid nodi, hyd at 2009, gofynnodd yr arolwg am y 'celfyddydau cyfryngol' yn hytrach na'r 'celfyddydau digidol', a gyflwynwyd yn 2010. Maent yn yr un cae o ran math o weithgarwch ond diffiniwyd y celfyddydau cyfryngol yn ddylunio gwefannau a gweithio gyda'ch cyfrifiadur personol, tra diffinnir y celfyddydau digidol yn gliriach fel a ganlyn: creu a gwneud darnau celfyddydol gan ddefnyddio technoleg ddigidol e.e. uwchlwytho, creu neu adgymysgu cynnwys celfyddydol (e.e. ar YouTube, Flickr, ayb). Roedd y celfyddydau cyfryngol yn tueddu cofnodi lefelau is o gyfranogi (am fod y diffiniad yn fwy caeth) a rhaid cofio hyn wrth gymharu tueddiadau data dros y naw mlynedd.

4.1 Amllder cyfranogi o weithgareddau celfyddydol

Yn 2017, cyfranogodd 87.4% o blant a phobl ifainc o weithgareddau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach; ychydig o gynnydd o 1.1 pwynt canran ar y flwyddyn flaenorol.




Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 y don) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2010-17

Er 2010, mae cyfraddau cyfranogi wedi amrywio, ond dim ond un flwyddyn ydoedd pan gwmpodd y gyfradd islaw 80% sef 2010 pan oedd yn 76.3%. Er 2010 mae'r lefel gyfranogi'n parhau'n araf i gynyddu gyda gostyngiad bach iawn rhwng yn y ddwy flynedd diwethaf o 1.1 pwynt canran.

4.2 Cyfranogi yn ôl grŵp demograffig

Mae'r adran hon yn ystyried y gwahaniaeth mewn cyfranogi cyffredinol yn ôl grŵp demograffig, rhanbarth a'r gallu gyda'r Gymraeg. Cyflwynir data 2015, 2016 a 2017 i'w cymharu â'i gilydd a siartio cyfran y plant a phobl ifainc ym mhob grŵp demograffig sy'n cyfranogi o weithgarwch celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach.



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 y don) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2015-17


Dengys Omnibws y Plant 2017 fod plant a phobl ifainc yn y safleoedd cymdeithasol uwch yn parhau i gyfranogi'n fwy felly na'r rhai mewn safleoedd is. Roedd gan rai yn y grŵp ABC1 lefel uwch o gyfranogi (88.5%) na'r rhai yng ngrŵp C2DE (86.5%) o ran cyfranogi unwaith y flwyddyn neu'n amlach.

Mae'r safleoedd cymdeithasol uwch yn gyfranogwyr amlach o'r celfyddydau ond mae'r bwlch rhwng y ddau grŵp yn culhau, yn awr mae'n 2 bwynt canran o'i gymharu â 8.5 pwynt canran yn 2016. Cafodd y safleoedd cymdeithasol is gynnydd mewn gwirionedd o 4.2 pwynt canran yn 2017, er bod rhai uwch wedi cael gostyngiad bach o 2.3 pwynt canran.


4.3 Cyfranogi yn ôl oedran

Mae cyfranogi yn ôl grŵp oedran yn dilyn patrwm tebyg i fynychu'r celfyddydau yn 2017, gyda'r grwpiau iau â lefelau uwch o gyfranogi o'u cymharu â grwpiau hŷn; 98.4% ymhlith 7-10 oed a 91.8% i 11-15 oed.

Daw'r gwahaniaeth rhwng mynychu a chyfranogi o ran oedran yn fwy amlwg wrth edrych ar 16-18 oed. Mae'r lefelau mynychu yn gweld gostyngiad graddol fel â'r ymatebwyr yn hŷn, ond mae cwmp cyfranogi mwy amlwg rhwng y rhai 7-15 oed a'r rhai 16-18 oed. Mae o leiaf 90% o blant 7-15 oed yn cyfranogi unwaith y flwyddyn neu'n amlach sy'n uwch na'r cyfartaledd, ond dim ond 68.7% o'r rhai 16-18 oed sy'n cyfranogi o'r celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach, sy'n is na'r cyfartaledd cyfranogi.



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 y don) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2015-17



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 y don) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2016/17


Megis mynychu'r celfyddydau ymysg plant a phobl ifainc, mae'n amlwg bod gorgyffwrdd rhwng oedran a grŵp blwyddyn ysgol, gan awgrymu bod amgylchedd yr ysgol yn ategu lefelau cyfranogi gan blant a phobl ifainc. Mae'r cyfrannau cyfranogi bron union yr un fath i blant 7-10 oed ag i blant sydd ym mlynnyddoedd 2-6 yn yr ysgol. Mae hyn hefyd yn wir am y rhai 11-15 oed a'r rhai yn y blynyddoedd ysgol 7-11. Ni fydd rhai o'r bobl ifainc yn y grŵp oedran hynaf mewn addysg bellach ac ymddengys fod ganddynt lefelau cyfranogi is na'r rheini sydd yn yr ysgol o hyd; 68.7% o'r holl bobl ifainc 16-18 oed o'u cymharu ag 86.7% o'r rhai sydd yn y blynyddoedd ysgol 12-13. Dyna wahaniaeth o 18 pwynt canran sy'n gynydd ers y flwyddyn flaenorol pan oedd y gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp dim ond yn 5.5 pwynt canran.

Yn ystod 2017 y cyfranogodd 62.1% o'r rhai nad oeddynt yn yr ysgol unwaith y flwyddyn neu'n amlach.

4.4 Cyfranogi yn ôl rhywedd

Mae gwahaniaeth cyfranogi o hyd rhwng bechgyn a merched gyda lefelau uwch o gyfranogi gan ferched (89.2%) na bechgyn (85.6%). Fodd bynnag culhaodd y bwllch cyfranogi rhwng y ddau ryw ers y flwyddyn flaenorol i 3.6 pwynt canran o'i gymharu â 8.1 pwynt canran yn 2016.

Er y bu gostyngiad bychan iawn yn lefelau cyfranogi'r merched, i lawr gan ychydig dros 1 pwynt canran, mae lefelau cyfranogi'r bechgyn wedi cynyddu gan 3.3 pwynt canran. Daw hyn â'r bechgyn yn agosach at y lefelau cyfranogi a gawsant yn 2015.



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 y don) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2015-17


4.5 Cyfranogi yn ôl rhanbarth

Yn 2017 y Gogledd oedd y rhanbarth gyda'r lefel uchaf o gyfranogi (91.3%) a'r uchaf ond un oedd Canolbarth y De (89.6%). Y rhanbarth gyda'r lefelau isaf o gyfranogi oedd y De-ddwyrain (80%).

O graffu ar y rhanbarthau ar wahân, roedd gan y Gogledd lefelau cyfranogi tebyg yn 2015 a 2016 o tua 86%, ond cyrhaeddodd ei lefel uchaf o weithgarwch yn 2017 (91.3%).

Er i'r De-orllewin gael cynnydd bychan yn 2016 i 89.6%, erbyn hyn mae wedi gostwng i ychydig o dan lefelau 2015 gyda'i 86.9%. Arhosodd lefelau cyfranogi Canolbarth y De yn gyson ar 89% dros y tair blynedd diwethaf. Roedd gan y De-ddwyrain y lefelau uchaf o gyfranogi yn 2015 sef 90.2%, daeth y rheini i lawr wedyn i 76.2% yn 2016 ac wedyn cynyddodd y lefelau eto yn 2017 i 80.2%, er yr arhosant 10 pwynt canran yn is nag ar eu huchaf yn 2015.

Newidiodd y lefelau uchaf ac isaf ers y flwyddyn flaenorol pan oedd y De-orllewin a Chanolbarth y De gyda'r lefelau cyfranogi uchaf yn 2016, ond yn 2017 y Gogledd a gymerodd eu lle. Erys y lefelau cyfranogi isaf yn y De-ddwyrain (80.2%) sef yr un patrwm â'r flwyddyn flaenorol.




Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 y don) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2015-17

4.6 Cyfranogi yn ôl y Gymraeg

Megis yn y blynyddoedd blaenorol, mae gan y rhai Cymraeg lefelau cyfranogi ychydig yn uwch (89.9%) yn 2017 na'r rhai di-Gymraeg (85.9%).


Mae gan siaradwyr Cymraeg lefel gyfranogi ychydig yn uwch ond arhosodd y lefel hon yn eithaf sefydlog o ryw 90% dros gyfnod y tair blynedd. Fodd bynnag, bu cynnydd ymhlith y rhai di-Gymraeg o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol o 2.4 pwynt canran o 83.5% i 85.9% sy'n gwrthdroi gostyngiad y cyfnod adrodd diwethaf. Unwaith eto culhaodd hyn y bwloch rhwng y ddau grŵp o 7.1 pwynt canran yn 2016 i 4 pwynt canran yn 2017.



Sail: pob 7-18 oed (o leiaf 1,000 y don) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2015-17

4.7 Dadansoddiad pellach o'r Gymraeg


Gan graffu ar ddata'r Gymraeg, ceir lefelau cyfranogi ychydig yn uwch ymhlith plant a phobl ifainc sy'n siarad rhywfaint o Gymraeg ond nad ydynt yn rhugl o'u cymharu â'r rhai sy'n rhugl. Er 2015 erys cyfran y rhai nad ydynt yn rhugl yn 91%. Mae cyfranogi'r rhai rhugl rhwng 86.6% a 88.8%.



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 y don) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2015-17

4.8 Cyfranogi yn ôl celfyddyd

Dengys y graff isod gyfran y plant a'r bobl ifainc yng Nghymru sy'n cymryd rhan ym mhob gweithgaredd celfyddydol unigol unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Dangosir canfyddiadau diweddaraf arolwg 2017, ynghyd â chanfyddiadau o'r ddwy flynedd flaenorol, at ddibenion cymharu.



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 y don) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2015-17

Y celfyddydau gweledol a chrefftiau oedd y rhai mwyaf poblogaidd yn 2017 gyda lefel gyfranogi o 66.2%. Cynyddodd hyn gan 4.4 pwynt canran o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol sydd ychydig yn uwch na'r lefelau ar gyfer 2015 a oedd yn 65.2%.

Ysgrifennu creadigol oedd y gelfyddyd fwyaf poblogaidd ond un (62.2%). Cafwyd gostyngiad yma oherwydd mai 64.9% oedd y lefel yn 2015 a 2016.

Dawns o hyd yw'r gelfyddyd leiaf poblogaidd o ran cyfranogi gydag ychydig o dan chwarter (22%) yn cyfranogi ohoni yn 2017. Yng nghyfnod y tair blynedd bu cwmp o 1 pwynt canran bob blwyddyn.

Cyfranogodd hanner y plant a'r bobl ifainc o weithgareddau cerddorol yn 2017 ac erys hyn yr un fath er 2015.


Cafwyd cynnydd flwyddyn ar flwyddyn i'r celfyddydau digidol o 42.8% yn 2015, i 45.2% yn 2016 ac i 48.8% yn 2017.

Arhosodd lefelau cyfranogi mewn drama a theatrig ac mewn gwneud ffilm/fideo a ffotograffiaeth yn wastad dros gyfnod y tair blynedd. Roedd lefelau drama a theatrig yn 35.1% yn 2017, i fyny o 1 pwynt canran o'r flwyddyn flaenorol, ond arhosodd gwneud ffilm/fideo a ffotograffiaeth ar 38% dros y tair blynedd.

4.9 Cyfranogi o weithgareddau celfyddydol - sut a phryd

Yn ystod 2017, yn wahanol i fynychu, digwydd y rhan fwyaf o gyfranogi o ganlyniad i weithgaredd a drefnir drwy'r ysgol/coleg ac yn ystod amser ysgol/coleg gyda 69.6% yn cyfranogi felly. Wedyn daw cyfranogi yn amser y plant eu hunain mewn gweithgareddau a drefnwyd y tu allan i'r ysgol, sef 54.5% o'r rhai sy'n cyfranogi unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Ni chyfranogodd 12.6% o unrhyw weithgaredd a dim ond 6.2% a gyfranogodd o weithgaredd a drefnwyd gan eu hysgol/coleg ond y tu allan i amser yr ysgol/coleg.

Nid yw cyfanswm y ffigurau hyn yn 100% oherwydd y sail am bob bar yw'r holl blant a phobl ifainc, ac felly mae'n bosibl iddynt gyfranogi o ragor nag un gelfyddyd mewn rhagor nag un ffordd.




Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed: 1,032

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2017

Atodiad 1: Mynychu yn ôl celfyddyd

Dramâu


Ffigur 1: Tuedd mynychu dramâu, 2007-17



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn)

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2007-17

Ffigur 2: Mynychu dramâu yn ôl demograffegau allweddol, 2016/17



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2016-17

Tabl 1: Mynychu dramâu - sut a phryd


	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg yn ystod amser ysgol	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg y tu allan i amser ysgol	Yn eich amser eich hun (heb ei drefnu gan yr ysgol/coleg)
2016	53.8%	8.3%	37.7%
2017	49.6%	5.7%	43.8%

Sail: Y rhai sy'n mynychu dramâu unwaith y flwyddyn neu'n amlach (484 yn 2016 a 500 yn 2017)

Ffynhonnell: Omnibws y Plant 2016 a 2017

Sioeau cerdd


Ffigur 3: Tuedd mynychu sioeau cerdd, 2007-2017



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn)

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2007-17

Ffigur 4: Mynychu sioeau cerdd yn ôl demograffegau allweddol, 2016/17



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn)

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2016-17


Tabl 2: Mynychu sioeau cerdd - sut a phryd

	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg yn ystod amser ysgol	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg y tu allan i amser ysgol	Yn eich amser eich hun (heb ei drefnu gan yr ysgol/coleg)
2016	34.0%	7.4%	58.6%
2017	28.9%	6.6%	62.9%

Sail: Rhai sy'n mynychu sioeau cerdd unwaith y flwyddyn neu'n amlach (245 yn 2016 a 297 yn 2017)
 Ffynhonnell: Omnibws y Plant 2016 a 2017


Opera

Ffigur 5: Tuedd mynychu opera, 2007-2017



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2007-17

Ffigur 6: Mynychu opera yn ôl demograffegau allweddol, 2016/17



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2016-17

Tabl 2: Mynychu opera - sut a phryd

(Noder: mae maint y sampl yn fach ar gyfer y gelfyddyd hon)


	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg yn ystod amser ysgol	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg y tu allan i amser ysgol	Yn eich amser eich hun (heb ei drefnu gan yr ysgol/coleg)
2016	47.3%	21.8%	31.0%
2017	20.6%	3.0%	71.1%

Sail: Rhai sy'n mynychu opera unwaith y flwyddyn neu'n amlach (10 yn 2016 a 28 yn 2017)

Ffynhonnell: Omnibws y Plant 2016 a 2017


Cyngherddau cerddoriaeth glasurol

Ffigur 7: Tuedd mynychu cyngherddau cerddoriaeth glasurol, 2007-2017



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2007-17

Ffigur 8: Mynychu cyngherddau cerddoriaeth glasurol yn ôl demograffegau allweddol, 2016/17



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2016-17


Tabl 3: Mynychu cyngherddau cerddoriaeth glasurol - sut a phryd yn
 (Noder: mae maint y sampl yn fach ar gyfer y gelfyddyd hon)

	Trefnwyd gan yr ysgol/ coleg yn ystod amser ysgol	Trefnwyd gan yr ysgol/ coleg y tu allan i amser ysgol	Yn eich amser eich hun (heb ei drefnu gan yr ysgol/ coleg)
2016	38.0%	1.0%	58.9%
2017	33.0%	7.3%	59.3%


Sail: Rhai sy'n mynychu cyngherddau cerddoriaeth glasurol unwaith y flwyddyn neu'n amlach (60 yn 2016 a 88 yn 2017)
 Ffynhonnell: Omnibws y Plant 2016 a 2017

Cerddoriaeth fyw arall

Ffigur 9: Tuedd mynychu cerddoriaeth fyw arall, 2007-2017



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2007-17



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2016-17


Tabl 4: Mynychu cerddoriaeth fyw eraill - sut a phryd
 (Noder: mae maint y sampl yn fach ar gyfer y gelfyddyd hon)

	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg yn ystod amser ysgol	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg y tu allan i amser ysgol	Yn eich amser eich hun (heb ei drefnu gan yr ysgol/coleg)
2016	12.0%	2.8%	85.1%
2017	6.3%	2.2%	91.0%

Sail: Y rhai sy'n mynychu cerddoriaeth fyw arall unwaith y flwyddyn neu'n amlach (397 yn 2016 a 412 yn 2017)
 Ffynhonnell: Omnibws y Plant 2016 a 2017


Dawns

Ffigur 11: Tuedd mynychu dawn, 2007-2017



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2007-17

Ffigur 12: Mynychu dawn yn ôl demograffegau allweddol, 2016/17



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2016-17

Tabl 5: Mynychu dawns - sut a phryd

(Noder: mae maint y sampl yn fach ar gyfer y gelfyddyd hon)


	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg yn ystod amser ysgol	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg y tu allan i amser ysgol	Yn eich amser eich hun (heb ei drefnu gan yr ysgol/coleg)
2016	29.6%	5.5%	64.7%
2017	25.9%	5.1%	68.6%

Sail: Y rhai sy'n mynychu dawns unwaith y flwyddyn neu'n amlach (205 yn 2016 a 205 yn 2017)

Ffynhonnell: Omnibws y Plant 2016 a 2017

Orielau neu arddangosfeydd celf neu grefft


Ffigur 13: Tuedd mynychu orielau neu arddangosfeydd celf neu grefft, 2007-17



Sail: pob 7-18 oed (o leiaf 1,000 fesul blwyddyn)

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2007-17

Ffigur 14: Mynychu orielau neu arddangosfeydd celf neu grefft yn ôl demograffegau allweddol, 2016/17



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2016-17


Tabl 6: Mynychu orielau neu arddangosfeydd celf neu grefft - sut a phryd

	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg yn ystod amser ysgol	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg y tu allan i amser ysgol	Yn eich amser eich hun (heb ei drefnu gan yr ysgol/coleg)
2016	32.4%	5.2%	64.8%
2017	27.4%	4.6%	67.4%

Sail: Y rhai sy'n mynychu orielau neu arddangosfeydd celf neu grefft unwaith y flwyddyn neu'n amlach (345 yn 2016 a 404 yn 2017) Ffynhonnell: Omnibws y Plant 2016 a 2017


Darlleniadau, adrodd straeon neu ddigwyddiadau llenyddol eraill

Ffigur 15: Tuedd mynychu digwyddiadau llenyddol, 2007-2017



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2007-17

Ffigur 16: Mynychu digwyddiadau llenyddol yn ôl demograffegau allweddol, 2016/17



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2016-17

Tabl 7: Mynychu darlleniadau, adrodd straeon neu ddigwyddiadau llenyddol - sut a phryd


	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg yn ystod amser ysgol	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg y tu allan i amser ysgol	Yn eich amser eich hun (heb ei drefnu gan yr ysgol/coleg)
2016	74.4%	4.2%	24.0%
2017	57.5%	8.3%	33.5%

Sail: Y rhai sy'n mynychu darlleniadau, adrodd straeon neu ddigwyddiadau llenyddol unwaith y flwyddyn neu'n amlach (271 yn 2016 a 245 yn 2017)


Ffynhonnell: Omnibws y Plant 2016 a 2017

Carnifalau a chelfyddydau'r stryd

Ffigur 17: Tuedd mynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd, 2010-2017



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2007-17



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2016-17

Tabl 8: Mynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd - sut a phryd

	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg yn ystod amser ysgol	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg y tu allan i amser ysgol	Yn eich amser eich hun (heb ei drefnu gan yr ysgol/coleg)
2016	3.6%	1.2%	94.9%
2017	1.8%	1.0%	95.9%


Sail: Y rhai sy'n mynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd unwaith y flwyddyn neu'n amlach (456 yn 2016 a 525 yn 2017)

Ffynhonnell: Omnibws y Plant 2016 a 2017


Atodiad 2: Cyfranogi o'r celfyddydau yn ôl gweithgaredd artistig

Gweithgareddau cerddorol

Ffigur 1: Tuedd cyfranogi o weithgareddau cerddorol, 2007-2017



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2007-17



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2016-17

Tabl 1: Cyfranogi o weithgareddau cerddorol - sut a phryd


	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg yn ystod amser ysgol	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg y tu allan i amser ysgol	Yn eich amser eich hun (heb ei drefnu gan yr ysgol/coleg)
2016	62.5%	4.2%	33.2%
2017	54.7%	4.3%	40.9%

Sail: Y rhai sy'n cyfranogi o weithgareddau cerddorol unwaith y flwyddyn neu'n amlach (513 yn 2016 a 526 yn 2017)

Ffynhonnell: Omnibws y Plant 2016 a 2017


Drama neu weithgareddau theatrig

Ffigur 3: Tuedd cyfranogi o weithgareddau drama neu theatrig, 2007-2017



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2007-17

Ffigur 4: Cyfranogi o weithgareddau drama neu theatrig yn ôl demograffegau allweddol, 2016/17



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2016-17

Tabl 2: Cyfranogi o weithgareddau drama neu theatrig - sut a phryd


	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg yn ystod amser ysgol	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg y tu allan i amser ysgol	Yn eich amser eich hun (heb ei drefnu gan yr ysgol/coleg)
2016	48.1%	5.9%	45.5%
2017	48.2%	4.7%	47.1%

Sail: Y rhai sy'n cyfranogi o weithgareddau drama neu theatrig unwaith y flwyddyn neu'n amlach (348 yn 2016 a 363 yn 2017)

Ffynhonnell: Omnibws y Plant 2016 a 2017


Gweithgareddau dawns

Ffigur 5: Tuedd cyfranogi o weithgareddau dawns, 2007-2017



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2007-17

Ffigur 6: Cyfranogi o weithgareddau dawns yn ôl demograffegau allweddol, 2016/17



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2016-17

Tabl 3: Cyfranogi o weithgareddau dawns - sut a phryd


	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg yn ystod amser ysgol	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg y tu allan i amser ysgol	Yn eich amser eich hun (heb ei drefnu gan yr ysgol/coleg)
2016	48.1%	5.9%	45.5%
2017	48.2%	4.7%	47.1%

Sail: Y rhai sy'n cyfranogi o weithgareddau dawns unwaith y flwyddyn neu'n amlach (235 yn 2016 a 229 yn 2017)

Ffynhonnell: Omnibws y Plant 2016 a 2017


Gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth

Ffigur 7: Tuedd cyfranogi o wneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth, 2007-2017



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2007-17

Ffigur 7: Tuedd cyfranogi o wneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth, 2007-2017



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2016-17

Tabl 4: Cyfranogi o wneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth - sut a phryd


	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg yn ystod amser ysgol	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg y tu allan i amser ysgol	Yn eich amser eich hun (heb ei drefnu gan yr ysgol/coleg)
2016	39.3%	0.9%	59.0%
2017	35.9%	2.6%	61.3%

Sail: Y rhai sy'n cyfranogi o wneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth unwaith y flwyddyn neu'n amlach (389 yn 2016 a 395 yn 2017)

Ffynhonnell: Omnibws y Plant 2016 a 2017


Gweithgareddau celf weledol a chrefft

Ffigur 9: Tuedd cyfranogi o weithgareddau celf weledol a chrefft, 2007-2017



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2007-17

Ffigur 10: Cyfranogi o weithgareddau celf weledol a chrefft yn ôl demograffegau allweddol, 2016/17



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2016-17

Tabl 5: Cyfranogi o weithgareddau celf weledol a chreffft - sut a phryd


	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg yn ystod amser ysgol	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg y tu allan i amser ysgol	Yn eich amser eich hun (heb ei drefnu gan yr ysgol/coleg)
2016	67.9%	2.3%	29.5%
2017	55.0%	1.9%	42.9%

Sail: Y rhai sy'n cyfranogi o weithgareddau celf weledol a chreffft unwaith y flwyddyn neu'n amlach (631 yn 2016 a 683 yn 2017)

Ffynhonnell: Omnibws y Plant 2016 a 2017


Gweithgareddau'r celfyddydau digidol

Ffigur 11: Tuedd cyfranogi o weithgareddau celfyddydol digidol, 2007-2017



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2007-17

Ffigur 12: Cyfranogi o weithgareddau celfyddydol digidol yn ôl demograffegau allweddol, 2016/17



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2016-17

Tabl 6: Cyfranogi o weithgareddau celfyddydol cyfryngol/digidol - sut a phryd

	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg yn ystod amser ysgol	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg y tu allan i amser ysgol	Yn eich amser eich hun (heb ei drefnu gan yr ysgol/coleg)
2016	49.4%	2.2%	48.3%
2017	45.9%	2.4%	51.6%


Sail: Y rhai sy'n cyfranogi o weithgareddau celfyddydol cyfryngol/digidol unwaith y flwyddyn neu'n amlach

(462 yn 2016 a 503 yn 2017)

Ffynhonnell: Omnibws y Plant 2016 a 2017


Gweithgareddau ysgrifennu creadigol

Ffigur 13: Tuedd cyfranogi o ysgrifennu creadigol, 2007-2017



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2007-17

Ffigur 14: Cyfranogi o ysgrifennu creadigol yn ôl demograffegau allweddol, 2016/17



Sail: Pob plentyn a pherson ifanc 7-18 oed (o leiaf 1,000 bob blwyddyn) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2016-17

Tabl 7: Cyfranogi o ysgrifennu creadigol - sut a phryd

	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg yn ystod amser ysgol	Trefnwyd gan yr ysgol/coleg y tu allan i amser ysgol	Yn eich amser eich hun (heb ei drefnu gan yr ysgol/coleg)
2016	80.5%	2.3%	17.1%
2017	78.0%	1.9%	19.8%

Sail: Y rhai sy'n cyfranogi o ysgrifennu creadigol unwaith y flwyddyn neu'n amlach

(662 yn 2016 a 642 yn 2017)

Ffynhonnell: Omnibws y Plant 2016 a 2017

Atodiad 3: Diffiniadau o safleoedd cymdeithasol

Gellir rhannu'r boblogaeth yn chwe grŵp economaidd-gymdeithasol neu safleoedd cymdeithasol, sy'n seiliedig ar alwedigaeth y prif enillydd incwm ar yr aelwyd. Mae gan bawb yn y cartref yr un safle cymdeithasol â'r prif enillydd incwm. I gynorthwyo dadansoddi, cyfunir yn aml y tri safle cyntaf a'r tri diwethaf yn grŵp ABC1 a grŵp C2DE ac ystyrir eu bod yn cyfateb i'r dosbarthiadau canol a'r dosbarthiadau gweithiol:

- A "y dosbarth canol uchaf"- rheolaethol, gweinyddol, proffesiynol uwch e.e. Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cwmni, Uwch Was Sifil, Meddyg, Barnwr, Bargyfreithiwr, Cyfrifydd Gweithredol
- B "y dosbarth canol"- rheolaethol gweinyddol, proffesiynol uwch a chanolradd, e.e. Athro Ysgol Uwchradd, Llyfrgellydd, Rhaglenwr Cyfrifiadurol, Swyddog Prawf, Gweithiwr Cymdeithasol
- C1 "y dosbarth canol is"- goruchwyllo, clerigol, rheolaethol is e.e. Gweithiwr Clerigol/Swyddfa, Goruchwylwr Siop Llawr, Clerc Banc, Gwerthwr, Myfyriwr
- {ABC1au – swyddi proffesiynol, cymwys ac nad ydynt â llaw}
- C2 "y dosbarth gweithiol medrus"-gweithwyr llaw medrus e.e. Trydanwr, Saer Coed, Diffoddwr Tân, Goruchwylwr
- D "y dosbarth gweithiol"-gweithwyr llaw lled-fedrus a di-greff e.e. Gweithiwr Siop, Gweithiwr Llinell mewn Ffatri, Casglwr Sbwriel, Negesydd, Gweithiwr Bar
- E Y rhai sy'n gwbl ddibynol ar fudd-daliadau'r wladwriaeth, gan gynnwys pobl sy'n ddi-waith yn yr hirdymor a phensiynwyr heb bensiynau preifat; Labrwr Achlysurol
- {C2DEau – gweithwyr llaw medrus, lled-fedrus a di-greff a phobl nad ydynt yn gweithio}

Cyngor Celfyddydau Cymru Cwestiynau terfynol Omnibws y Plant 2017

Dangos cerdyn

Cwestiwn 1 Pa mor aml ydych chi'n mynd i bob un o'r gweithgareddau a ddarllenaf ichi?

Felly, yn gyntaf, pa mor aml ydych chi'n

Mynd i ddramâu

- ... Sawl gwaith yr wythnos
- ... Unwaith yr wythnos
- ...2 neu 3 gwaith y mis
- ... Unwaith y mis
- ... Unwaith bob 2 i 3 mis
- ...2 neu 3 gwaith y flwyddyn
- ... Unwaith y flwyddyn
- ... Llai aml
- ... Byth

Ailadroddwch ar gyfer:

- Mynd i sioeau cerdd
- Mynd i'r opera
- Mynd i gyngherddau cerddoriaeth glasurol
- Mynd i gerddoriaeth fyw eraill
- Mynd i berfformiadau dawn
- Mynd i orielau neu arddangosfeydd celf neu grefft
- Mynd i ddarlleniadau, adrodd straeon neu ddigwyddiadau llenyddol eraill
- Mynd i garnifalau a chelfyddydau'r stryd

Dangos cerdyn

Cwestiwn 2 Pan aethoch chi i ddrama ddiwethaf, (gofynnwch am bob gweithgaredd sydd wedi'i fynychu o leiaf unwaith y flwyddyn yng Nghwestiwn 1) a oedd y digwyddiad:

- wedi'i drefnu gan yr ysgol/coleg yn ystod amser ysgol?
- wedi'i drefnu gan yr ysgol/coleg ond y tu allan i amser ysgol?
- yn eich amser eich hun (heb ei drefnu gan yr ysgol/coleg)?

Ailadroddwch hyn am bob gweithgaredd a fynychwyd unwaith y flwyddyn neu'n amlach

Dangos cerdyn

Cwestiwn 3 A pha mor aml ydych chi'n cymryd rhan ym mhob un o'r gweithgareddau a ddarllenaf i chi?

Felly, yn gyntaf, pa mor aml ydych chi'n

Cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol (megis canu neu chwarae offeryn)

- ... Sawl gwaith yr wythnos
- ... Unwaith yr wythnos
- ...2 neu 3 gwaith y mis
- ... Unwaith y mis
- ... Unwaith bob 2 i 3 mis
- ...2 neu 3 gwaith y flwyddyn
- ... Unwaith y flwyddyn
- ... Llai aml
- ... Byth

Ailadroddwch ar gyfer:

cymryd rhan mewn gweithgaredd drama neu theatrig (e.e. actio, cyfarwyddo, gwaith technegol)?

cymryd rhan mewn gweithgaredd dawn (heb gyfrif mynd i'r disgo/clwb nos)?

cymryd rhan mewn gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth?

cymryd rhan yn y celfyddydau gweledol neu grefftau (e.e. peintio, tecstilau)?

cymryd rhan yn y celfyddydau digidol (creu a gwneud celf gan ddefnyddio technoleg ddigidol e.e. uwchlwytho, creu neu adgymysgu cynnwys celfyddydol ar YouTube, Flickr, er enghraifft)?

cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol (e.e. barddoniaeth neu straeon)?

Dangos cerdyn

Cwestiwn 4 Pan gymeroch chi ran ddiwethaf mewn gweithgaredd cerddorol (gofynnwch am bob gweithgaredd y mae wedi cymryd rhan ynddo o leiaf unwaith y flwyddyn yng Nghwestiwn 3) **a oedd:**

yn yr ysgol/ coleg yn ystod amser ysgol?

yn yr ysgol/ coleg ond y tu allan i amser ysgol?

yn eich amser eich hun (heb ei drefnu gan yr ysgol/ coleg)?

Ailadroddwch hyn am bob gweithgaredd y cymerwyd rhan ynddo unwaith y flwyddyn neu'n amlach